# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Llandysilio**

**Neuadd Cae Chwarae Llandysilio**
**Llandysilio**
**Clunderwen**
**SA66 7SY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**28 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Cylch Meithrin Llandysilio ei gofrestru yn 2002 i ddarparu gofal dydd sesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer hyd at 24 o blant. Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli yn y neuadd gymunedol ym mhentref Llandysilio ac mae'n gweithredu bob bore rhwng 9.00am a 12.00pm dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol. Y personau cofrestredig yw Haulwen Pridmore ac Anna Beynon-Makepeace, ynghyd â Delyth Roblin sydd hefyd yn berson â gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Canfuom fod plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Llandysilio yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn derbyn gofal gan staff gofalgar. Mae gan arweinwyr bartneriaethau da gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn briodol.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom hysbysu'r person cofrestredig nad oeddent yn cydymffurfio â Rheoliad 29, cyflogaeth staff gan nad oedd pob ffeil staff yn cynnwys geirdaon. Cadarnhaodd y person cofrestredig fod hyn wedi'i gywiro erbyn hyn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell bod arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod y polisi amddiffyn plant wedi'i gynnwys yn y ffeil bolisi;
- sicrhau bod cofnodion o arfarniadau staff yn cael eu ffeilio ym mhob ffeil staff;
- canfod barn plant a rhieni ynglŷn â'r adolygiad ansawdd gofal;
- aildrefnu'r ffeil staff yn ffeiliau unigol a sicrhau bod yr holl dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu dychwelyd i'w perchnogion.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gwrandewir ar blant yng Nghylch Meithrin Llandysilio, ac maent yn gwneud dewisiadau rywfaint o'r amser. Mae’r plant yn hapus, wedi ymgartrefu, ac yn mwynhau’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mae meysydd i'w datblygu o ran yr amrediad o ddewisiadau sydd ar gael iddynt.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae’r plant yn gwneud rhai dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â'r hyn maent am ei wneud. Gwrandewir arnynt ac maent yn siarad a mynegi eu hunain.

Gwelsom blant yn cyrraedd ac aethant yn syth i chwarae gyda'r gweithgareddau pen bwrdd amrywiol a ddarparwyd iddynt. Treuliodd grŵp bach beth amser yn chwarae gyda thoes chwarae. Ymatebodd y rhan fwyaf o blant wrth hunan-gofrestru ond dewisodd eraill beidio â siarad a gwnaethant nodio yn lle. Dywedodd y plant yn glir pa ffrwythau yr oeddent eisiau neu nad oeddent eisiau. Yn ystod amser byrbryd, cafodd y plant ddewis rhwng dŵr neu laeth i'w yfed. Gwelsom blant yn mynd at y bwrdd paentio a gofyn i gael paentio llun. Roedd eraill eisiau ymuno yn y gweithgaredd 'gwrando ar synau' ond cawsant eu hebrwng ymaith i chwarae mewn man arall.

Mae gan y plant rywfaint o lais yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant wedi ymgartrefu ac yn ymdopi â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni yn dda. Mae ganddynt berthynas glòs â staff, sy'n eu hadnabod yn dda.

Cyrhaeddodd yr holl blant yn hapus ac arhosodd eu rhieni / gofalwyr gyda nhw am ychydig cyn gadael. Cafodd un plentyn ei godi gan aelod o staff i chwifio hwyl fawr o'r ffenestr, ac fe wnaeth hi hyn yn hapus. Roedd rhai plant yn mynd at staff am sicrwydd pan oeddent yn cyrraedd ac yn sylweddoli bod oedolion anghyfarwydd yno.  Roedd plant yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol a'r hyn oedd yn digwydd nesaf.

Mae gan blant berthynas glòs â staff ac maent yn cael eu cadw'n ddiogel.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn cymryd eu tro ac yn dechrau cydweithio yn ystod gweithgareddau grŵp, gyda chymorth gan y staff.

Gwelsom blant yn chwarae gyda'i gilydd am beth amser wrth y bwrdd toes chwarae, gan gymryd tro gyda gwahanol dorwyr. Roedd angen i rai plant gael eu hatgoffa gan staff am fod yn gyfeillgar gyda'i gilydd ac roeddent angen anogaeth i helpu i dacluso, a oedd ar y cyfan yn cael ei anwybyddu gan rai plant. Gwelsom blant yn gwrthod eistedd wrth y bwrdd ar gyfer byrbryd ac yn rhedeg o gwmpas y byrddau, wrth i staff barhau i ofyn iddynt ddod at y bwrdd. Roedd plant yn derbyn sicrwydd gan staff pan oedd plant eraill yn achosi gwrthdaro ac yn galw enwau arnynt.

Mae rhyngweithio plant yn datblygu ond mae angen cefnogaeth gan staff ar blant.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant wedi ymgolli yn eu chwarae. Maent yn cynnal diddordeb am gyfnod priodol ac yn symud yn rhydd rhwng gweithgareddau, pan fyddant ar gael.

Gwelsom blant yn chwarae gydag anifeiliaid amrywiol ar y llawr, ac yn gwneud synau rhuo wrth iddynt afael mewn dinosoriaid a llewod. Roedd y plant yn gyffrous wrth ddweud eu bod yn mynd y tu allan i ymarfer gweithgareddau mabolgampau, ac roeddent yn mwynhau cymryd rhan yn y ras rhwystr yn yr awyr agored ac yn gweiddi cefnogaeth i'w gilydd, wrth iddynt gymryd eu tro. Gwelsom rai plant yn gorwedd ar y glaswellt yn gofyn i'w gilydd "beth am orwedd lawr eto?"

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ac mae ganddynt ddiddordeb yn yr hyn sydd ar gael iddynt.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, yn llawn cymhelliant ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth gyda chymorth.

Gwelsom y plant yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol, gydag arweiniad ar lafar gan y staff. Roedd ganddynt fynediad at sinciau, dosbarthwyr sebon a thywelion papur ar ôl defnyddio'r toiled. Yn ystod amser byrbryd, roedd y plant a oedd wedi gofyn ar lafar am gael gwneud, yn gyfrifol am ddosbarthu darnau o ffrwythau a thost i'w ffrindiau, a oedd wedi cael ei baratoi ar eu cyfer. Roedd plant yn cymryd rhan mewn tasg suddo ac arnofio gydag aelod o staff lle'r oeddent yn rhagweld a fyddai eitem yn suddo neu'n arnofio. Roedd plant yn dilyn cyfarwyddyd yn ystod y cwrs rhwystr o neidio i mewn i'r cylch a mynd drwy'r twnnel.

Mae'r plant yn dysgu, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol gyda chymorth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae staff yn rheoli rhyngweithio'n gadarnhaol rywfaint o'r amser.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan staff ffeil gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau, er bod y polisi amddiffyn plant wedi'i dynnu. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffyrdd iach o fyw a gweithgareddau corfforol.

Wrth i'r plant gyrraedd, fe wnaeth y staff gloi'r drws ar ôl iddynt ddod i mewn. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn byrbryd ac ar ôl iddynt ddefnyddio'r toiled. Gwnaethom drafod y gweithdrefnau amddiffyn plant gyda'r staff ac roedd yr ymatebion yn dangos hyder o ran beth i'w wneud pe bai ganddynt bryderon. Roedd cofnodion damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cofnodi a'u llofnodi'n gywir gan staff a rhieni. Nid oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn y gwasanaeth. Roedd staff yn glanhau byrddau cyn ac ar ôl amser byrbryd. Roedd staff yn hwyluso chwarae yn yr awyr agored yn y cae mawr tu ôl i'r neuadd a'r ardal chwarae ger y neuadd.

Ar y cyfan, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn annog y plant i gymryd eu tro a rhannu â'i gilydd. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda y rhan fwyaf o'r amser, er y gwelsom rai rhyngweithiadau negyddol.

Clywsom staff yn diolch i blant am helpu i dacluso teganau ar ôl chwarae yn yr awyr agored. Gwelsom ddigwyddiadau lle dywedwyd wrth blant 'na, ti ddim yn cael chwarae yno nawr', pan oeddent eisiau gwrando ar y CD o synau. Clywsom staff yn atgoffa'r plant i fod yn garedig â'i gilydd a chwarae'n garedig â'i gilydd. Roedd y staff yn rhoi sicrwydd iddynt ac yn cynnig cofleidio'r plant a oedd yn ofidus yn dilyn gwrthdaro â phlant eraill. Rhoddodd y staff amser a sylw sylweddol i blant mwy heriol fel ymgais i droi'r ymddygiad yn gadarnhaol. Er enghraifft, nid oedd plant yn dymuno eistedd wrth y bwrdd ar gyfer byrbryd, ac roeddent yn rhedeg o amgylch bwrdd arall wrth i aelod o staff redeg ar eu hôl i geisio atal y rhedeg. Roedd staff yn rhoi llai o ganmoliaeth a sylw i blant oedd yn rhyngweithio'n dawel ac yn gwrando ar gyfarwyddiadau.

Mae'r staff yn aneffeithiol wrth reoli rhyngweithiadau negyddol.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod anghenion a galluoedd y plant.

Roedd staff yn adnabod plant yn eu gofal a gwnaethant ddweud wrthym beth oedd eu hoffterau a'u dewisiadau. Gwelsom staff yn defnyddio iaith fathemategol gyda phlant fel enwi lliwiau, cyfrif i 10 ac enwi siapiau. Gwnaeth pob aelod o staff siarad Cymraeg â'r plant. Ar ôl amser byrbryd, sicrhaodd staff fod sawl gweithgaredd ar gael i chwarae gyda nhw a gwnaethant wahanu'r plant yn grwpiau llai. Roedd rhai yn chwarae gyda nhw tra bod eraill yn crwydro i ardaloedd eraill. Gwelsom staff yn eistedd gyda'r plant ac yn defnyddio iaith fathemategol fel 'trwm' ac 'ysgafn'.

Mae staff yn rhesymol wrth hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygu plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn neuadd gymunedol pentref bach. Mae'r amgylchedd yn caniatáu i blant chwarae mewn ardal ddiogel gyda digon o le a chyfleoedd chwarae rhesymol. Mae ardal awyr agored ddynodedig fach, cae mawr ac ardal chwarae y gall y gwasanaeth eu defnyddio.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau bod risgiau'n cael eu canfod a'u dileu cymaint â phosibl.

Gwelsom fod y drws i'r adeilad yn cael ei gadw dan glo pan oedd plant yn bresennol. Roedd yn rhaid i bob un a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth gael mynediad gan aelod o staff. Roedd asesiadau risg yn cael eu cwblhau a'u hasesu pan oedd angen ar gyfer ardaloedd dan do ac awyr agored. Roedd y gwasanaeth wedi cael ei archwilio gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac roedd ganddo sgôr o bump. Roedd pob offer trydanol wedi cael ei brofi ym mis Mawrth 2017. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob tymor ac yn cael eu cofnodi. Gofynnwyd i ni lofnodi llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gwelsom fod pawb a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth yn defnyddio hwn yn rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel mewn modd effeithiol.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r brif ystafell lle y lleolir y gwasanaeth yn groesawgar ac yn helaeth ac mae arddangosfeydd lliwgar ar y waliau. Mae'r ystafell yn cael ei chynnal a'i chadw i safon dda.

Mae'r ystafell yn cynnig detholiad o gyfleoedd chwarae a llefydd i fwyta neu gwblhau gweithgareddau pen bwrdd. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu byrddau a chadeiriau er mwyn darparu ardal gymdeithasol ar gyfer amser byrbryd. Roedd staff a oedd yn paratoi byrbrydau yn y gegin yn gallu goruchwylio ar yr un pryd gan fod ganddi gownter agored mawr ar gyfer gweini. Roedd adnoddau'n cael eu storio mewn blychau plastig mawr mewn cwpwrdd storio a oedd ond yn hygyrch i staff. Roedd cae mawr yng nghefn yr adeilad, ac roeddent yn gallu ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a theithiau cerdded. I ochr yr adeilad roedd ardal chwarae gyda ffrâm ddringo a sleidiau oedd yn ddiogel ac yn hawdd mynd atynt. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod wedi'u cyfyngu o ran rhoi arddangosfeydd ar y waliau o ganlyniad i reolau pwyllgor y neuadd.

Mae arweinwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ac yn eang.

**3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?**

Mae arweinwyr yn darparu ystod dda o adnoddau a theganau, sy'n lân, o ansawdd da ac yn briodol i oedran.

Roedd yr adnoddau o ansawdd da ac yn addas i’w diben. Roedd enghreifftiau o'r adnoddau sydd ar gael yn cynnwys ardal ddarllen gyda detholiad o lyfrau Cymraeg, jig-sos, hambwrdd dŵr / tywod, cornel cartref, toes chwarae, offer crefft, loto a gemau bwrdd paru, ardal adeiladu gydag offer, trên a chledrau, peli, treisiclau, a dillad gwisgo i fyny. Gwelsom fod yr adnoddau yn cael eu storio yn y cwpwrdd ac yn cael eu rhoi o’r neilltu ar ddiwedd pob sesiwn gan fod yr ystafell yn cael ei defnyddio gan grwpiau cymunedol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r gwasanaeth yn cael ei arwain a’i reoli mewn modd priodol. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r rhan fwyaf o'r rheoliadau gofynnol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith, ac mae angen i'r arweinwr sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â nhw. Mae systemau ar waith ar gyfer adolygu'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith er nad oedd pob polisi ar gael.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Roedd y gymhareb oedolyn i blant yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r plant a chanfuom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth gywir. Roedd pob cofnod damwain wedi cael ei lofnodi gan staff a rhieni. Roedd gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac roeddent yn gweithredu'r ‘Cynnig Gweithredol’ yn llawn. Nid oedd y polisi amddiffyn plant ar gael yn y ffeil bolisi.

Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth hwn yn effeithiol ar y cyfan.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw’r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol ac yn rhannu'r wybodaeth gyda rhieni.

Roedd adolygiad ansawdd gofal wedi cael ei gwblhau ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn nodi gweithgareddau, gwibdeithiau, hyfforddiant staff, adnoddau newydd a brynwyd ac adborth gan rieni. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn cynnwys barn y plant a'r rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn anffurfiol cyn dechrau'r sesiwn. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn gwobr efydd gan gynllun sicrhau ansawdd cenedlaethol, ond dywedodd arweinwyr wrthym nad oedd ganddynt gynlluniau i weithio tuag at y wobr arian nesaf.

Mae angen datblygu hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant i sicrhau bod safbwyntiau pawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys y plant a'r rhieni, yn cael eu hystyried.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei staffio’n gywir, ac y cynigir digon o weithgareddau ar gyfer nifer y plant sy’n bresennol. Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n gywir.

Gwelsom ffeiliau staff a chanfuom nad oeddent yn cynnwys yr holl ddogfennau cywir gan gynnwys geirdaon. Roedd ffeiliau staff yn anhrefnus ac yn cynnwys tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gwreiddiol yn ogystal â chopïau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn arfarniadau blynyddol, er nad oedd copïau o'r rhain ar gael yn y gwasanaeth. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod sesiynau goruchwylio’n cael eu cynnal yn rheolaidd ond nad oeddent wedi'u cofnodi. Roedd gan arweinwyr gynlluniau wrth gefn i ymdrin ag absenoldebau staff.

Mae’r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr berthynas dda â'r rhieni / gofalwyr, yr ysgol leol a'r gymuned.

Buom yn siarad â sawl rhiant a wnaeth ddweud wrthym pa mor werthfawr oedd y gwasanaeth i'r ardal a pha mor hawdd i fynd atynt oedd y staff. Dywedodd rhai rhieni wrthym nad oeddent yn cael eu hysbysu am ddatblygiad eu plentyn ond eu bod yn teimlo'n hyderus yn gofyn pe baent am wybod. Roedd yr arweinydd yn mynd a'r plant hŷn i'r ysgol ar ddiwedd pob sesiwn gan ei bod hefyd yn gweithio yn yr ysgol. Roeddent yn cael eu gwahodd i ddiwrnod mabolgampau’r ysgol, ac adeg y Nadolig, roedd y plant ysgol yn cael eu gwahodd i wylio drama’r Geni yn y gwasanaeth, ac i'r gwrthwyneb. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod yn mynd â phlant ar deithiau cerdded lleol i ffermydd ac i mewn i'r pentref. Maent yn mynychu'r capel lleol ar gyfer y gwasanaeth Diolchgarwch ac wedi cael ymweliadau gan y nyrs, y deintydd a'r person trin gwallt. Maent hefyd wedi trefnu teithiau cerdded i'r dref leol ac ymweliadau â'r llyfrgell a'r amgueddfa.

Mae partneriaethau effeithiol gyda rhieni a'r gymuned leol.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell bod arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod y polisi amddiffyn plant wedi'i gynnwys yn y ffeil bolisi;
- sicrhau bod cofnodion o arfarniadau staff yn cael eu ffeilio ym mhob ffeil staff;
- canfod safbwyntiau plant a rhieni ynglŷn â'r adolygiad ansawdd gofal;
- Aildrefnu'r ffeil staff yn ffeiliau unigol a sicrhau bod yr holl dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu dychwelyd i'w perchnogion.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd, wedi'i drefnu a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth am gyfanswm o dair awr a hanner. Rhoddwyd adborth dros y ffôn ar 4 Gorffennaf.

- Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn gan ddefnyddio ein dull Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan staff;

- buom yn siarad â rhieni a'r holl staff oedd yn bresennol a'r unigolion cofrestredig;

- gwnaethom dderbyn tri holiadur rhiant;

- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o ddogfennau, gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau recriwtio a ffeiliau plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd sesiynol** |
| **Person cofrestredig** | **Haulwen Pridmore**<br>**Delyth Roblin**<br>**Anna Beynon-Makepeace** |
| **Person â gofal** | **Delyth Roblin** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng dwy a phedair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener 9:00am - 12:00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Mai 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **26 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |